Thomas Cranmer 1489–1556

Archesgob Caergaint

Wedi cyfnod o ansicrwydd mawr yn sgil y Diwygiad Protestannaidd yn ystod teyrnasiad Elisabeth I fe ddaeth cyfnod mwy sefydlog yn hanes yr Eglwys Anglicanaidd. Yn ystod y cyfnod newydd hwn un o benseiri'r diwygio crefyddol yn Lloegr oedd Thomas Cranmer, archesgob cyntaf Eglwys Loegr ar ei newydd wedd.

Ganed Cranmer i deulu cyffredin yn Aslacton yn Swydd Nottingham a phan oedd yn bedair ar ddeg oed aeth i astudio i Goleg yr Iesu, Caergrawnt. Gwnaed ef yn gymrawd ym 1511 ac efallai ei fod yn un o'r criw o ysgolheigion oedd yn cyfarfod yn ddirgel yn nhafarn y White Horse i drafod syniadau newydd. Gŵr tawel ysgolheigaidd ydoedd a chyffredin fu ei fywyd hyd nes iddo gael ei alw i Gaergaint gan y Brenin Harri VIII. Roedd Harri yn eithriadol o awyddus i gael mab fel etifedd ac roedd arno angen rhywun i gefnogi ei gais i'r Pab yn Rhufain am ysgariad.

Mae'n debygol mai daliadau Cranmer ynglŷn ag awdurdod dwyfol brenhinoedd oedd y rheswm iddo gael ei benodi. Pan sefydlwyd ef yn Abaty Westminster tyngodd lw o ufudd-dod i Rufain ac o ffyddlondeb i'r brenin. Yn raddol roedd rhwyg yn datblygu gyda Rhufain. Bwriad Harri VIII ar y dechrau oedd sefydlu Eglwys Gatholig yng ngwledydd Prydain gydag ef ei hun yn ben arni. Byddai hynny yn hwyluso ei briodas gydag Anne Boleyn. O ganlyniad cafwyd deddfwriaethau newydd oedd yn dinistrio awdurdod yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng ngwledydd Prydain.

Ar 20 Mai 1533 cyhoeddodd Cranmer fod priodas Harri gyda Catherine o Aragon wedi ei diddymu. Golygai hyn y gallai'r brenin ailbriodi. Esgymunwyd Harri VIII gan y Pab a ddatganodd nad oedd ei ysgariad a'i briodas gydag Anne yn ddilys.

Yn ystod y flwyddyn ddilynol cadarnhawyd safle'r brenin gan gyfreithiau newydd o'r senedd yn cynnwys Deddf Goruchafiaeth. Datganai hon mai

Harri oedd 'unig Ben daearol yr Eglwys yn Lloegr', a rhoddwyd iddo awdurdod llwyr dros yr eglwys, ei hathrawiaeth, ei haddoliad a'i heiddo. Yn raddol symudodd Cranmer tuag at safbwynt mwy diwygiedig. O dan ddylanwad ei gaplan Nicholas Ridley newidiodd Cranmer ei agwedd tuag at yr offeren. Gwrthododd y syniad o draws-sylweddiad (fod y bara a'r gwin yn troi yn wir gorff Iesu Grist) a daeth i gredu fod presenoldeb Iesu yn yr offeren yn ysbrydol ac nid yn gorfforol.

Pan fu farw Harri daeth ei fab Edward VI i'r orsedd, un oedd wedi derbyn hyfforddiant gan Cranmer, ac yn ystod ei deyrnasiad ef y dylanwadodd Protestaniaeth o ddifrif ar Loegr. Ym 1549 cyhoeddwyd y Llyfr Gweddi cyntaf yn Saesneg, a Cranmer oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'i gynnwys. Roedd hwn yn gam pwysig eto tuag at ddiosg dylanwad athrawiaethau Pabyddol.

Ym 1553 lluniodd Cranmer ac Esgob Ridley y Ddwy Erthygl a Deugain oedd yn crynhoi credoau'r Eglwys. Ym 1571 fe'u talfyrrwyd i 39 erthygl. Pan basiwyd Deddf Unffurfiaeth oedd yn gorfodi'r credoau hyn ar offeiriaid, gadawodd nifer ohonynt yr Eglwys.

Pan fu farw Edward daeth y Catholic Mari Tudur i'r orsedd ac aeth hi ati i adfer Catholigiaeth. Adferwyd awdurdod y Pab a seremonïau Catholig a dechreuodd cyfnod cas o erledigaeth. Llosgwyd nifer o Brotestaniaid.

Carcharwyd Cranmer yn Nhŵr Llundain ac wedi tair blynedd yno fe'i dedfrydwyd ym 1556 i gael ei ddienyddio. Cafodd ei glymu mewn cadwynau a'i losgi wrth stanc. Wrth i'r fflamau gau amdano dywedodd, 'Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd.'